# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1 E+W

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Amcanion gwella*

### 3 Amcanion gwella E+W

(1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i awdurdod gwella Cymreig osod amcanion iddo'i hun i wella'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno ("amcanion gwella").

(2) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn bodloni ei amcanion gwella.

(3) Rhaid i amcan gwella gael ei ffurfio mewn ffordd a fydd yn gwella'r modd yr arferir y swyddogaeth y mae'n ymwneud â hi neu'r swyddogaethau y mae'n ymwneud â hwy o ran un o'r canlynol o leiaf—

(a) effeithiolrwydd strategol;

(b) ansawdd gwasanaethau;

(c) argaeledd gwasanaethau;

(d) tegwch;

(e) cynaliadwyedd;

(f) effeithlonrwydd; ac

(g) arloesi.

(4) I gael ystyron paragraffau (a) i (g) o is-adran (3), gweler adran 4.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 3 mewn grym ar 1.4.2010 gan O.S. 2009/3272, ergl. 3(1), **Atod. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Croes Bennawd: Amcanion gwella yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Medi 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16